

## Y SENEDD

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14.00 ar 01 EBRILL 2020, trwy Microsoft Teams.**

Aelodau â phleidlais: Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Yr Athro Neil Glasser, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Gwyddorau'r Ddaear a Bywyd); Dr Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol); Yr Athro Colin McInnes, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi); Yr Athro Qiang Shen, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol); Mr Simon Banham; Dr Cathryn Charnell-White; Dr Hazel Davey; Mr Prysor Davies; Dr Sarah Davies; Yr Athro Iain Donnison; Dr Rebecca Edwards; Dr Gwion Evans; Dr Patrick Finney; Mr Tomos Ifan, Llywydd UMCA; Dr Aloysius Igboekwu; Mr Chris Loftus; Dr Alex Mangold; Dr Louise Marshall; Yr Athro Robert Meyrick; Mr John Morgan; Mr David Moyle; Yr Athro Eleri Pryse; Mr Dhan Ramnatsing, Llywydd UMABer; Yr Athro Phillipp Schofield; Dr Anoush Simon; Miss Chloe Wilkinson-Silk, Swyddog Materion Academaidd UMABer ; Dr Victoria Wright; Dr Sarah Wydall, a'r Athro Reyer Zwiggelaar, Pennaeth Ysgol y Graddedigion.

Aelodau heb bleidlais: Dr Guy Baron; Yr Athro Simon Cox; Dr Andrew Davies; Yr Athro Andrew Evans; Yr Athro Nigel Holt; Dr Thomas Jansen; a'r Athro Andrew Thomas.

Yn gweinyddu: Mrs Meinir Davies, Cofrestrydd y Gyfadran, Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol; Mr Tim Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth; Mr Penri James, Darpar Gadeirydd Cangen Prifysgol Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; Mr Steve Thomas, Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus; a Ms Emma Williams, Cofrestrydd Academaidd.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Dr Sarah Higgins; Dr Cerys Jones, Cadeirydd Cangen Prifysgol Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Dr Ffion Jones; a'r Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr).

### 26. MATERION A GODWYD GAN YR IS-GANGHELLOR

#### 1. Croeso

Croesawyd y canlynol i'r cyfarfod:

1. Penri James, Darpar Gadeirydd Cangen Prifysgol Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; a
2. Meinir Davies, a oedd yn bresennol yn rhan o'r drefn ymgynefino â'i swyddogaeth newydd yn Gofrestrydd Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol.

#### 2. Cydymdeimlad

1. Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

1. Abbi Andreou, myfyriwr ail flwyddyn yn Yr Ysgol Fusnes;

2. Katie Evans, myfyriwr ar ei thrydedd flwyddyn yn Adran y Gyfraith a Throsedd;
3. Melanie Evans, a fu'n Gynorthwydd Cerdd yng Nghanolfan Gerdd y Brifysgol;
4. Elizabeth Harrison, myfyriwr ar ei thrydedd flwyddyn yn yr Ysgol Gelf;
5. Yr Athro John Wyn Owen CB, Cymrawd er Anrhydedd yn y Brifysgol;
6. Yr Athro Maldwyn Mills, cyn-aelod o staff yn yr Adran Iaith a Llenyddiaeth Saesneg fel yr oedd ar y pryd;
7. Gwydion Morris, myfyriwr ail flwyddyn yn yr Adran Gyfrifiadureg; a
8. Yr Athro Emeritws Glanville Price, cyn Athro Ieithoedd Romáwns yn yr Adran Ieithoedd Ewropeaidd fel yr oedd ar y pryd.

2. Mynegodd aelodau hefyd gydymdeimlad â'r Athro Tim Wood a'i deulu yn eu profedigaeth ddiweddar.

3. Sesiwn Wybodaeth

Cyn y cyfarfod ffurfiol, cynhaliwyd sesiwn wybodaeth i aelodau'r Senedd ynglŷn â denu myfyrwyr. Byddai copi o'r cyflwyniad ar gael trwy safle SharePoint i'r aelodau nad oeddent yn gallu bod yn y sesiwn honno (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

## 27. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

## 28. COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2019 (SEN1920-034).

**PENDERFYNWYD**

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir, yn amodol ar fân ddiwygiadau i restr y rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

## 29. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Senedd, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (SEN1920-035).

NODWYD

Y diweddariadau a ddarparwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

### **30. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1920-036).

NODWYD

1. Manylai'r adroddiad ar yr adegau ers cyfarfod diwethaf y Senedd lle'r oedd yr aelodau wedi cymeradwyo materion trwy ohebiaeth.
2. Y mater a gymeradwywyd gan yr aelodau trwy ohebiaeth oedd: adroddiad manwl ynglŷn â sicrwydd ansawdd academiaidd, a fyddai yn ei dro yn darparu sicrwydd a rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa i gytuno ar y Datganiadau Sicrwydd Ansawdd blynyddol i'w cyflwyno i'r Cyngor Cyllido.

### **31. GOHEBIAETH**

Doedd dim gohebiaeth i'w gofnodi.

### **32. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (SEN1920-037).

NODWYD

1. Roedd dwy brif adran i'r adroddiad: adroddiad am uchafbwyntiau; ac adroddiad ynglŷn â chynllunio a chofrestriadau myfyrwyr.
2. Diolchwyd i gydweithwyr am eu cyfraniad i ymateb y sefydliad i bandemig coronafeirws COVID-19. Bu angen gwneud nifer o benderfyniadau hanfodol mewn cyfnod byr er mwyn i weithrediadau'r Brifysgol barhau. Yn awr roedd sylw'n troi at oblygiadau tymor canolig a hirdymor yr argyfwng, ac at gyfrannu i'r ymateb sector eang.
3. Gohiriwyd y seremonïau graddio y bwriadwyd eu cynnal ym mis Gorffennaf 2020. Roedd gwahanol ddewisiadau ar gyfer ad-drefnu'r seremonïau hyn nawr yn cael eu hystyried. Roedd y penderfyniad a wnaed gan y Senedd ar 10 Hydref 2018 i roddi dyfarniadau academiaidd yn ffurfiol ym Myrddau Arholi'r Senedd, yn golygu y gallai'r holl fyfyrwyr raddio yn ôl y bwriad yn yr haf, ac yna ddewis dod i gynulliad graddio yn nes ymlaen i ddathlu eu cyflawniadau.

### **33. NEWIDIADAU I'R RHEOLIADAU A'R CAMAU CYSYLLTIEDIG I YMATEB I'R PANDEMIG CORONAFEIRWS**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cofrestrydd Academaidd (SEN1920-038).

NODWYD

1. Yr un fath ag eraill yn y sector, roedd y Brifysgol yn ceisio lleddfu effaith pandemig COVID-19, a'r cyfyngiadau cysylltiedig ar symudiadau, ar fyfyrwyr a staff, wrth gynnal safonau academiaidd ac uniondeb academiaidd ar yr un pryd.

2. Roedd yr adroddiad yn cynnig sut y gallai'r Brifysgol wneud penderfyniadau ynglŷn â symud ymlaen a rhoddi dyfarniadau os nad oedd yr holl asesiadau na/neu brosesau safoni wedi'u cyflawni. Wrth wneud hyn, byddai'r Brifysgol yn cydbwysu'r angen i gyflawni rhwymedigaethau contractau'r myfyrwyr, a sicrhau nad oedd y myfyrwyr yn dioddef anfantais sylweddol o ganlyniad i'r sefyllfa ddigynsail hon.
3. Cafodd y darpariaethau a gynigir gan y Brifysgol eu datblygu gan gyfeirio at y canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar 23 Mawrth 2020. Roedd y darpariaethau hyn wedi eu nodi yn yr adroddiad:
  1. Y Senedd i gymeradwyo'r diwygiadau a gynigir yn y papur er mwyn i'r myfyrwyr dderbyn canlyniadau modiwlau, symud ymlaen yn eu cynlluniau astudio, derbyn canlyniadau'r dyfarniadau ac, os oeddent yn ennill cymhwyster, dod i seremonïau graddio yn y dyfodol;
  2. Byddai pob adran academiaidd yn caniatáu estyniadau o bythefnos ar gyfer traethodau hirion (neu brosiectau cyffelyb) yn y flwyddyn olaf, ac eithrio rhai yn gysylltiedig â'r Dystysgrif Addysg Uwchraddedig, ac estyniadau cymesur i ddyddiadau marcio;
  3. Cymeradwyaeth y Senedd i ohirio pob Bwrdd Arholi am bythefnos, gan gynnwys Byrddau Arholi'r Senedd, a oedd i'w cynnal ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2020 a dyddiad rhyddhau'r canlyniadau yn dilyn hynny, er mwyn rhoi digon o amser ar gyfer asesu, marcio, safoni ac arholi allanol;
  4. Arholiadau ailsefyll mis Awst i gael eu disodli gan asesiadau ar-lein yn unig, a rhoi dewis i fyfyrwyr i gymryd yr asesiadau ar-lein hynny ar y pryd, neu os yw'n well ganddynt geisio sefyll arholiad traddodiadol o dan amodau arholiad, i wneud hynny ar ddyddiad yn nes ymlaen; a
  5. Y Senedd i gytuno i sefydlu gweithgor, yn cynnwys staff o'r Cyfadrannau, y Gofrestrfa Academiaidd, Cyfathrebu, a Gwasanaethau Gwybodaeth, er mwyn goruchwyllo'r sefyllfa wrth iddi ddatblygu a chynghori ymhellach;
4. Trafodwyd adroddiad y Cofrestrydd Academiaidd yn fanwl gan aelodau'r Senedd. Croesawodd yr aelodau'r eglurder a ddarparwyd yn yr adroddiad. Cafwyd cadarnhad hefyd gan y myfyrwyr sy'n aelodau'r Senedd eu bod yn cefnogi'r holl gynigion.
5. Pe byddai arholiad yn werth dros 50% o ganlyniad modiwl, neu pe byddai ei angen i gyflawni canlyniadau dysgu cynllun gradd (os na chawsant eu profi trwy fodiwlau eraill), byddai angen trefnu asesiadau gwahanol. Pe byddai angen asesiadau gwahanol, rhaid eu cynnal ar yr adeg y byddai'r arholiadau'n cael eu sefyll yn draddodiadol. Roedd y Gofrestrfa Academiaidd yn paratoi cyfarwyddyd ar y mathau o asesiadau gwahanol a fyddai'n briodol, ac fe fyddent yn gweithio gydag adrannau unigol ar raglenni penodol.
6. Mynegwyd pryder ynglŷn â'r cynnydd posibl yn llwyth gwaith staff, er y cydnabuwyd y dylid adolygu'r asesiadau gwahanol arfaethedig i wneud yn sicr nad ydynt yn creu baich ychwanegol. Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i'r adnoddau technolegol sydd ar gael i staff a myfyrwyr ar gyfer cyflawni a marcio'r asesiadau gwahanol o bell.
7. Yn wyneb y cynnydd sylweddol yn y galw gan fyfyrwyr am ystyried Amgylchiadau Arbennig lle nad yw'n bosibl i fyfyrwyr ddarparu tystiolaeth ategol, gwnaed penderfyniad gweithredol eisoes i atal y weithdrefn arferol ynglŷn ag Amgylchiadau

Arbennig dros dro. Bydd hyn yn golygu bod myfyrwyr sydd wedi'u rhwystro rhag gwneud asesiadau neu sy'n methu asesiadau yn semester dau yn cael caniatâd i ailsefyll heb gapio'r marciau ar y cyfle nesaf ddaw.

8. Gallai adrannau unigol hefyd gymryd agwedd ymarferol mewn achosion lle byddai'n briodol cynnig estyniadau i fyfyrwyr ar gyfer eu gwaith cwrs, yn hytrach na rhoi cyfle i ailsefyll. Byddai agwedd o'r fath yn arbennig o briodol i fyfyrwyr Dysgu o Bell.

#### **PENDERFYNWYD**

9. Cymeradwyo'r diwygiadau a gynigiwyd i Reoliadau, fel y cawsant eu cyflwyno yn yr adroddiad a'u crynhoi ym mhwynt 33.3 (uchod) (**GWEITHREDU: Y Cofrestrydd Academaidd**).

### **34. ADRODDIAD O'R BWRDD ACADEMAIDD**

#### DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick (SEN1920-039).

#### NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfodydd y Bwrdd Academaidd ar 20 Tachwedd 2019 a 05 Mawrth 2020. Trafodwyd yr adroddiad yn fanwl gan aelodau'r Senedd.

2. TurnItIn

Ar 20 Tachwedd 2020, penderfynodd y Bwrdd Academaidd y byddai'r Brifysgol yn gwneud cyflwyniadau digyfngiad trwy TurnItIn o 2020-21. Bydd myfyrwyr hefyd yn cael gweld yr 'adroddiadau tebygrwydd' cysylltiedig cyn gynted ag y byddent yn barod.

3. Trosglwyddo Marciau Cydrannol

Ar 05 Mawrth 2020, penderfynodd y Bwrdd Academaidd y dylid cofnodi'r holl farciau, gan gynnwys marciau arholiadau, yn Blackboard o fis Medi 2020 ymlaen ymhob rhan o'r Brifysgol.

4. Adroddiadau'r Arholwyr Allanol 2018/19

#### DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick (SEN1920-040).

#### NODWYD

Paratowyd yr adroddiad am fod y Cyngor wedi gwneud cais am adroddiad penodol ynglŷn ag adroddiadau blynyddol yr arholwyr allanol ar gyfer y Senedd. Ystyriwyd yr adroddiad gan y Bwrdd Academaidd ar 20 Tachwedd 2019, a byddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 27 Ebrill 2020.

5. BVSc Milfeddygaeth

#### DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick, yn ymgorffori rheoliadau drafft y radd gyfun BVSc Milfeddygaeth (SEN1920-041).

NODWYD

1. Ar 20 Tachwedd 2019, roedd y Bwrdd Academaidd wedi ystyried a chymeradwyo'r rheoliadau drafft a ystyriwyd gan y cyd Banel Cymeradwyo Cynllun ar gyfer Prifysgol Aberystwyth a'r Coleg Milfeddygaeth Brenhinol yn ei gyfarfod ar 29 Hydref 2019.
2. Oherwydd bod hwn yn gynllun gradd ar y cyd, roedd angen i'r ddau sefydliad ddod i gytundeb ar gyfres o reoliadau penodol. Mae hyn yn wahanol i drefniadau cydweithrediadol blaenorol y cytunwyd iddynt lle byddai rheoliadau Prifysgol Aberystwyth ei hun yn rheoli rhaglenni a ddarparwyd mewn sefydliad arall, neu gynlluniau gradd ddeuol lle mae'r myfyriwr, wrth astudio yno, yn ddarostyngedig i reoliadau'r sefydliad sy'n cynnal y cwrs.
3. Roedd y trafodaethau'n parhau er mwyn pennu atebion derbynol i'r ddau sefydliad yn achos dulliau gwahanol a ddefnyddir gan y ddau mewn nifer o feysydd. Ond, nid oedd natur y trafodaethau sy'n weddill yn rhwustro'r ddau sefydliad rhag ceisio cymeradwyaeth i'r Rheoliadau gan gyrff llywodraethu academaidd y naill a'r llall.

**PENDERFYNWYD**

4. Cymeradwyo'r rheoliadau arfaethedig (**GWEITHREDU**: Y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick).
6. Cylch Gorchwyl Bwrdd Arholi'r Senedd

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick (SEN1920-042).

NODWYD

1. Roedd cynnig wedi'i wneud i ddiwygio cylch gorchwyl Bwrdd Arholi'r Senedd i ganiatáu cael dirprwyo'r Gadair i 'uwch aelod arall o staff sydd â phrofiad priodol'.
2. Cafodd y diwygiad hwn ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Bwrdd Academaidd ar 05 Mawrth 2020.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyo'r diwygiad a gynigiwyd i Gylch Gorchwyl Bwrdd Arholi'r Senedd (**GWEITHREDU**: Y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick).
7. Adroddiad Blynyddol ar Gwynion, Apeliadau ac Adolygiadau Terfynol

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfun yn ymgorffori adroddiadau ar: gwynion myfyrwyr; adolygiad o weithdrefnau apelio / cwyno yn erbyn canlyniad achos moeseg ymchwil uwchraddedig; apeliadau academaidd; adolygiadau terfynol; a Datganiad Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol am 2019 (SEN1920-043)

NODWYD

Ystyriwyd yr adroddiadau'n fanwl gan y Bwrdd Academaidd ar 20 Tachwedd 2019, a byddent yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor er gwybodaeth ar 27 Ebrill 2020.

8. Ymddygiad Academaidd Annerbyniol 2018-19

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Rheolwr Sicrhau a Gwella Ansawdd Anna Cole (SEN1920-044).

NODWYD

Ystyriwyd yr adroddiad yn fanwl gan y Bwrdd Academaidd ar 20 Tachwedd 2019, a byddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor er gwybodaeth ar 27 Ebrill 2020.

9. Rheoliadau a Chonfensiynau Gradd

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick (SEN1920-045).

NODWYD

1. Roedd cynnig wedi'i wneud i ychwanegu 'Astudiaethau Plentyndod Cynnar' (heb Statws Ymarferydd y Blynyddoedd Cynnar ) yn deitl cynllun gadael yn unig. I wneud hyn byddai hyn angen diwygiadau pwnc-benodol i Reoliadau Graddau Cychwynnol Modiwlwr, fel y nodwyd yn yr adroddiad.
2. Roedd angen atodiad i Reoliadau Cyrsiau Modiwlwr Uwchraddedig a Ddysgir er mwyn ymestyn y cyfnod ar gyfer cwblhau Tystysgrif Uwchraddedig Menter a Busnes, Arwain Newid, i dair blynedd (o'r ddwy flynedd safonol). Roedd sail resymegol a geiriad arfaethedig yr atodiad wedi eu nodi yn yr adroddiad.
3. Cafodd y ddau gynnig i ddiwygio Rheoliadau eu hystyried a'u cymeradwyo gan y Bwrdd Academaidd ar 05 Mawrth 2020.

**PENDERFYNWYD**

4. Cymeradwyo'r ychwanegiadau a gynigiwyd i'r Rheoliadau Gradd Modiwlwr Cychwynnol a Rheoliadau'r Cyrsiau Uwchraddedig Modiwlwr a Ddysgir (**GWEITHREDU:** Y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick).

**35. ADRODDIAD GAN FWRDD Y DDARPARIAETH GYDWEITHREDIADOL**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Judith Shepherd (SEN1920-046).

NODWYD

Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd gan Fwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol ar 09 Mawrth 2020. Trafodwyd yr adroddiad gan aelodau'r Senedd.

**36. ADRODDIAD GAN Y BWRDD MARCHNATA A DENU MYFYRWYR**

## DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Sarah Whitehead (SEN1920-047).

## NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfodydd y Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr 18 Tachwedd 2019 a 03 Mawrth 2020. Trafodwyd yr adroddiad gan aelodau'r Senedd.
2. Cylch Gorchwyl y Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr

## NODWYD

1. Yng nghyfarfod y Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr ar 18 Tachwedd 2019, argymhellodd yr aelodau y dylai'r Senedd ddiwygio cylch gorchwyl y Bwrdd er mwyn i'r aelodaeth adlewyrchu'r ad-drefnu a wnaed i'r swyddogaeth Marchnata a Denu Myfyrwyr, ac i gynnwys arolygaeth o'r Strategaeth Ymestyn Ymhellach.

## PENDERFYNWYD

2. Cymeradwyo'r diwygiadau a gynigiwyd i Gylch Gorchwyl y Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr (**GWEITHREDU**: Y Dirprwy Gofrestrydd Sarah Whitehead).

### 37. ADRODDIAD O'R SWYDDFA YMCHWIL

## DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Tîm Effaith Ymchwil (SEN1920-048).

## NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Ymchwil ar 19 Rhagfyr 2019 a 14 Ionawr 2020. Trafodwyd yr adroddiad gan aelodau'r Senedd.
2. Datganiad ar ddefnydd cyfrifol o Fetrigau Ymchwil

## DERBYNIWYD

Adroddiad y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi), yn ymgorffori drafft o Ddatganiad ar ddefnydd cyfrifol o Fetrigau Ymchwil (SEN1920-057).

## NODWYD

1. Roedd metrigau'n cael eu defnyddio fwyfwy ledled y sector i asesu ansawdd ymchwil. Roedd hyn yn codi pryderon ynglŷn â'u camddefnyddio, yn enwedig o ystyried tueddiadau o ran y rhywiau a phynciau. Roedd darparwyr cyllid felly yn mynnu'n amlach bod gan brifysgolion Ddatganiad am y ffordd y byddai metrigau'n cael eu defnyddio'n gyfrifol i asesu ymchwil.
2. Byddai'r Datganiad drafft yn ymdrin â'r hyn y gallai'r Brifysgol ddefnyddio'r metrigau ar ei gyfer, sut y byddent yn cael eu defnyddio a pha gyfyngiadau y byddai'n rhaid eu cydnabod wrth wneud hynny. Cafodd y Datganiad drafft ei

ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Ymchwil a chan Weithrediaeth y Brifysgol ar 14 Ionawr a 04 Chwefror 2020 yn y drefn honno.

#### **PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyo'r Datganiad arfaethedig ynglŷn â defnydd cyfrifol o Fetrigau Ymchwil (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi)).

### **38. ADRODDIAD O BWYLLGOR MOESEG YMCHWIL Y BRIFYSGOL**

#### **DERBYNIWYD**

Adroddiad gan y Swyddog Uniondeb a Moeseg Ymchwil (SEN1920-049).

#### **NODWYD**

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfod Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol ar 05 Chwefror 2020. Trafodwyd yr adroddiad gan aelodau'r Senedd.
2. Datganiad Blynyddol Uniondeb Ymchwil 2018/19

#### **DERBYNIWYD**

Adroddiad gan y Rheolwr Datblygu Ymchwil, yn ymgorffori drafft Datganiad Blynyddol Uniondeb Ymchwil 2018/19 (SEN1920-050).

#### **NODWYD**

1. I gydymffurfio â'r Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil, roedd angen i'r Brifysgol baratoi Datganiad Blynyddol cryno ar Uniondeb Ymchwil a chael cymeradwyaeth iddo gan y corff llywodraethu academaidd cyn ei gyhoeddi ar wefan y sefydliad.
2. Roedd y Datganiad Blynyddol yn amlinellu'r camau a gymerwyd, y gweithrediadau a gyflawnwyd a'r fframwaith sydd yn ei le i gefnogi meithrin diwylliant o uniondeb ymchwil. Roedd hefyd yn rhoi crynodeb o archwiliadau a wnaed gan y Brifysgol ynglŷn â chamymddygiad mewn ymchwil.

#### **PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyo drafft y Datganiad Blynyddol Uniondeb Ymchwil 2018/19 ar gyfer ei gyhoeddi (**GWEITHREDU:** Rheolwr Datblygu Ymchwil).

### **39. LLEOEDD GWAG I AELODAU O'R SENEDD I WASANAETHU AR Y CYNGOR**

#### **DERBYNIWYD**

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1920-051).

#### **NODWYD**

1. Byddai aelodau'r Senedd sy'n gwasanaethu ar y Cyngor ar hyn o bryd yn dod i ben eu tymor cyfredol ar 31 Gorffennaf 2020. Roedd yr adroddiad yn argymhell proses ar gyfer ethol aelodau newydd o'r Senedd i'r Cyngor.

#### **PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwyo'r amserlen i ethol aelodau newydd o'r Senedd i wasanaethu ar y Cyngor, fel y nodwyd yn yr adroddiad (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

#### **40. EITEMAU ER GWYBODAETH**

##### **DERBYNIWYD**

Derbyniodd aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Adroddiad o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (SEN1920-052);
2. Grantiau Ymchwil (SEN1920-053); a
3. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol (SEN1920-054).

##### **NODWYD**

4. Cynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd er gwybodaeth.

#### **41. COFNODION PWYLLGORAU**

##### **DERBYNIWYD**

Adroddiad yn cynnwys y canlynol (SEN1920-055):

1. Y Bwrdd Academiaidd (20 Tachwedd 2019; a 05 Mawrth 2020);
2. Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol (28 Tachwedd 2019; a 09 Mawrth 2020);
3. Y Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr (18 Tachwedd 2019; a 03 Mawrth 2020);
4. Y Pwyllgor Ymchwil (19 Rhagfyr 2019; a 14 Ionawr 2020);
5. Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol (05 Chwefror 2020); a
6. Y Cyngor (25 Tachwedd 2019; a 14 Chwefror 2020).

##### **NODWYD**

7. Yr adroddiadau a dderbyniwyd o'r pwyllgorau.

#### **42. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A BUSNES YN Y DYFODOL**

1. Paratoadau ar gyfer Clirio 2020

Roedd yr ansicrwydd cyfredol oherwydd sefyllfa COVID-19 yn golygu bod y Brifysgol yn edrych ar ymarferoldeb cynnal ei hymgyrch Clirio flynyddol o bell. Byddai staff academiaidd yn cael eu hysbysu fel sy'n briodol wrth i'r paratoadau ddatblygu.